GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales



# Adroddiad Anghydraddoldeb Sgrinio 2024 a 2025

Fersiwn 1.0

Awst 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English
*Mewnosod dolen i'r fersiwn Saesneg*

Cynnwys


Rhestr o Dablau ... 3

Rhestr o Ffigurau ... 4

Awduraeth, diolchiadau a gwybodaeth gyswllt ... 5

Cyflwyniad ... 6

Cefndir ... 6

Camau gweithredu o'r Strategaeth Tegwch ... 7

- Cyfathrebu ... 7
- Cymuned ac Ymgysylltu ... 9
- Cydweithredu ... 10
- Cyflenwi Gwasanaethau ... 10
- Data a Monitro ... 11

Data ar Anghydraddoldeb y nifer a fanteisiodd ar sgrinio ... 12

Canfyddiadau allweddol o'r data ... 13

Bron Brawf Cymru ... 14

- Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal ddaearyddol ... 14
- Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl amddifadedd ... 16
- Nifer y rhai a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl oedran ... 18
- Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl y math o wahoddiad ... 19

Sgrinio Coluddion Cymru ... 20

- Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal ddaearyddol ... 21
- Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl amddifadedd ... 23
- Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl oedran ... 25
- Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl y math o wahoddiad ... 26
- Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl Rhywedd ... 26

Sgrinio Serfigol Cymru ... 27

- Cwmpas sgrinio serfigol yn ôl ardal ddaearyddol ... 28
- Cwmpas sgrinio serfigol yn ôl amddifadedd ... 29
- Cwmpas sgrinio serfigol yn ôl oedran ... 31

Rhaglen Cymru ar gyfer Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen ... 34

- Nifer y rhai a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl ardal ddaearyddol ... 34
- Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl amddifadedd ... 36

Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ... 38

- Cwmpas sgrinio llygaid diabetig yn ôl ardaloedd daearyddol ... 39
- Cwmpas sgrinio llygaid yn ôl amddifadedd ... 41
- Cwmpas sgrinio llygaid yn ôl oedran ... 43

Cwmpas sgrinio llygaid yn ôl rhywedd ..... 44
Casgliadau ..... 45
Diffiniadau ..... 46
Dolenni i waith perthnasol Iechyd Cyhoeddus Cymru ..... 47

## Rhestr o Dablau

Tabl 1: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ..... 14
Tabl 2: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ..... 15
Tabl 3: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ..... 17
Tabl 4: Bwlch anghydraddoldeb (%) absoliwt y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ..... 18
Tabl 5: Nifer (%) y rhai a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yng Nghymru yn ôl y math o wahoddiad, 2022/23 ..... 19
Tabl 6: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yng Nghymru yn ôl y math o wahoddiad 2023/24 ..... 20
Tabl 7: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ..... 21
Tabl 8: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ..... 22
Tabl 9: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ..... 23
Tabl 10: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ..... 24
Tabl 11: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl math o wahoddiad, 2022/23 i 2023/24 ..... 26
Tabl 12: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl rhywedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ..... 27
Tabl 13: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl rhywedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ..... 27
Tabl 14: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2022/23 ..... 28
Tabl 15: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24 ..... 29
Tabl 16: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) mewn cwmpas sgrinio serfigol yn ôl y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2022/23 ..... 30
Tabl 17: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) yng nghwmpas sgrinio serfigol yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24 ..... 31
Tabl 18: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl grŵp oedran yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2022/23 ..... 32
Tabl 19: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl grŵp oedran yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24 ..... 33
Tabl 20: Nifer (%) y rhai a fanteisiodd ar sgrinio Anewrysmau Aortig yn yr Abdomen (AAA) yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ..... 34
Tabl 21: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ..... 35
Tabl 22: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn

yr abdomen yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddo, 2022/23 ....... 37
Tabl 23: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ....... 38
Tabl 24: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2022/23 ....... 39
Tabl 25: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24 ....... 40
Tabl 26: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) cwmpas sgrinio llygaid yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ....... 42
Tabl 27: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) mewn cwmpas sgrinio llygaid yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24 ....... 43
Tabl 28: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl rhywedd, 2022/23 ....... 44
Tabl 29: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl rhywedd, 2023/24 ....... 45
Tabl 30: Gwahaniaeth yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio rhwng y cwintel mwyaf a'r lleiaf difreintiedig ....... 45

## Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2022/23 ....... 15
Ffigur 2: Y nifer (%) a fanteisiodd ar Sgrinio'r Fron yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2023/24 ....... 16
Ffigur 3: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ....... 17
Ffigur 4: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ....... 18
Ffigur 5: Nifer (%) y rhai a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl grŵp oedran yng Nghymru, 2022/23 ....... 19
Ffigur 6: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl grŵp oedran yng Nghymru, 2023/24 ....... 19
Ffigur 7: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2022/23 ....... 21
Ffigur 8: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2023/24 ....... 22
Ffigur 9: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ....... 23
Ffigur 10: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ....... 24
Ffigur 11: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl grŵp oedran yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ....... 25
Ffigur 12: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl grŵp oedran yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24 ....... 25
Ffigur 13: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl yr Awdurdod Lleol mae pobl yn byw ynddo, 2022/23 ....... 28
Ffigur 14: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl yr Awdurdod Lleol y mae pobl yn byw ynddi, 2023/24 ....... 29
Ffigur 15: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd, 2022/23 ....... 30
Ffigur 16: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd, 2023/24 ....... 31
Ffigur 17: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl grŵp oedran yng Nghymru, 2022/23 ....... 32
Ffigur 18: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl grŵp oedran yng Nghymru, 2023/24 ....... 33

Ffigur 19: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23 ..... 35
Ffigur 20: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2023/24 ..... 36
Ffigur 21: Nifer (%) y rhai a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl cwintel amddifadedd ardal y Bwrdd Iechyd, 2022/23 ..... 37
Ffigur 22: Y nifer a fanteisiodd ar Sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl cwintel amddifadedd ardal y Bwrdd Iechyd 2023/24 ..... 38
Ffigur 23: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl yr Awdurdod Lleol mae pobl yn byw ynddo, 2022/23 ..... 40
Ffigur 24: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl yr Awdurdod Lleol y mae pobl yn byw ynddo, 2023/24 ..... 41
Ffigur 25: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal Bwrdd Iechyd, 2022/23 42
Ffigur 26: Cwmpas sgrinio llygaid yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl Bwrdd Iechyd, 2023/24 ..... 43
Ffigur 27: Cwmpas (%) yn ôl grwpiau oedran ar gyfer sgrinio llygaid yng Nghymru, 2022/23 ..... 44

Ffigur 28: Cwmpas (%) yn ôl grwpiau oedran ar gyfer sgrinio llygaid yng Nghymru, 2023/24 ..... 44

## Awduraeth, diolchiadau a gwybodaeth gyswllt

**Awdur:** Bethan Bowden, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd, Adran Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cyfrannwr:** Charlotte Hanson, Cofrestrydd Arbenigol mewn Iechyd y Cyhoedd

Darparwyd data gan Guy Stevens a Thîm Gwybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Datganiad Sicrwydd Ansawdd

Mae cofnodion data sgrinio yn cael eu diweddaru'n gyson. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu tynnu (eu harchifo). Gallai hyn ymwneud â phryd y nodwyd bod angen sgrinio unigolyn; ei fod wedi cael canlyniadau sgrinio y mae angen eu cofnodi neu wedi newid statws ac nad oes angen ei sgrinio mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o wahanol ffynonellau gyda lefelau amrywiol o gywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Is-adran Sgrinio yn gwirio data am gywirdeb trwy gymharu setiau data - er enghraifft data practisiau meddygon teulu - ac mae'n cywiro'r data codio lle bo modd. Dylid nodi bod oedi weithiau wrth gasglu data – er enghraifft efallai na fydd unigolyn yn cofrestru ar unwaith gyda meddyg teulu os bydd yn symud cyfeiriad. Bydd yr oedi hwn felly yn effeithio ar gyflawnrwydd y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod data'n cael eu diweddaru'n gyson ac efallai y bydd mân newidiadau yn y niferoedd a nodir yn y ddogfen hon flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd adnewyddu data. Yn unol â chonfensiynau data a ddefnyddir mewn sefydliadau GIG eraill, rydym yn atal niferoedd sy'n is na phump pan fo'r data o bosibl yn sensitif er mwyn osgoi unrhyw risg o faterion cyfrinachedd posibl.

# Adroddiad Anghydraddoldeb Sgrinio

# 2024 a 2025

## Cyflwyniad

**Ein gweledigaeth, ar draws y rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru, yw bod pawb sy'n gymwys i gael eu sgrinio yn cael mynediad cyfartal a chyfle i fanteisio ar eu cynnig sgrinio gan ddefnyddio gwybodaeth ddibynadwy i wneud dewis gwybodus personol.**

Dyma ein trydydd Adroddiad Anghydraddoldeb Sgrinio, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a ddisgrifir yn ein Strategaeth Tegwch Sgrinio 2022-2025 ac yn dod â data ar ei gilydd o bob rhan o'r rhaglenni sgrinio pobl ifanc ac oedolion gyda ffocws penodol ar anghydraddoldeb. Mae'r diweddariad ar y camau gweithredu a gynhwysir yn yr adroddiad yn gyfredol o fis Rhagfyr 2025 ac wedi'i strwythuro o amgylch y pum maes allweddol a ddiffiniwyd yn y Strategaeth Tegwch Sgrinio 2022-2025.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data ar y rhai a wahoddwyd i gael eu sgrinio o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2024 a gyflwynir fel data 2022/23 a 2023/24. Gan ganiatáu chwe mis i gyfranogwyr fanteisio ar eu cynnig sgrinio, mae hyn yn adlewyrchu'r nifer sy'n manteisio ar brofion sgrinio/cwmpas o fis Hydref 2024. Mae'r data a gyflwynir yn canolbwyntio ar y penderfynyddion a'r ffactorau demograffig a gesglir fel rhan o'n casglu data arferol.

## Cefndir

Nod sgrinio yw darganfod camau cynnar clefyd neu atal clefydau rhag datblygu. Gall adnabod pobl sydd â mwy o siawns o gael cyflwr iechyd arwain at gynnig opsiynau triniaeth mwy effeithiol neu ddarparu gwybodaeth i lywio gwneud penderfyniadau am ofal yn y dyfodol. Gall sgrinio hefyd leihau'r siawns o ddatblygu cyflwr difrifol, gan atal afiechyd a'r niwed a fyddai wedi digwydd fel arall.

Mae'r Is-adran Sgrinio yn darparu saith rhaglen sgrinio genedlaethol yng Nghymru:

- Bron Brawf Cymru
- Sgrinio Coluddion Cymru,
- Sgrinio Serfigol Cymru
- Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru
- Sgrinio Clyw Babanod Cymru
- Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
- Rhaglen Cymru ar gyfer Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen

Mae'r Is-adran Sgrinio hefyd yn cydlynu ac yn rheoli rhwydwaith clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru gyda sgrinio'n cael ei ddarparu gan fyrddau iechyd yng Nghymru fel rhan o ofal cyn-enedigol arferol yn ystod beichiogrwydd.

Dewis yr unigolyn yw cymryd rhan mewn sgrinio ai peidio. Fodd bynnag, nid yw rhai pobl yn gwneud penderfyniad yn weithredol i wrthod sgrinio ond nid ydynt yn gallu derbyn eu cynnig oherwydd amrywiaeth o rwystrau cyd-gysylltiedig. Gall y rhwystrau hyn gynnwys diffyg cyfle i dderbyn eu cynnig oherwydd ffactorau economaidd neu amgylcheddol megis mynediad at leoliadau lle mae sgrinio'n digwydd. Efallai nad yw pobl eraill wedi derbyn gwybodaeth mewn ffordd sy'n eu galluogi i gael yr wybodaeth angenrheidiol i wneud dewis gwybodus. Efallai na fydd eraill yn ystyried sgrinio ataliol fel rhan o'u norm cymdeithasol neu eu hunaniaeth ddiwylliannol. Gall y rhwystrau hyn fod yn berthnasol ar lefel genedlaethol neu leol a gallant fod yn benodol i raglen neu fod yn ymwneud â chymuned neu unigolyn.

## Camau gweithredu o'r Strategaeth Tegwch

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn flaenoriaeth allweddol i'r Is-adran Sgrinio. Ein nod yw galluogi pob cyfranogwr cymwys i wneud dewisiadau gwybodus am sgrinio. Mae ein dull yn nodi cyfres o ymrwymiadau i symud camau gweithredu ymlaen ar draws pum maes allweddol:

1. Cyfathrebu
2. Cymuned ac Ymgysylltu
3. Cydweithio
4. Cyflenwi Gwasanaethau
5. Data a Monitro

### Cyfathrebu

**Ein hymrwymiad yw:**

- Darparu gwybodaeth am sgrinio mewn fformat hygyrch, gan ddefnyddio iaith briodol fel y gall pob unigolyn wneud ei ddewis personol gwybodus ei hun
- Darparu negeseuon clir a chyson i'r cyhoedd am bwrpas sgrinio a sut y gall sgrinio wella canlyniadau iechyd gan ddefnyddio fformatau cyfryngau digidol a thraddodiadol
- Datblygu negeseuon wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau a chymunedau lle nodir rhwystrau penodol i fynd i'r afael â phryderon sy'n atal cyfranogi

O fewn yr Is-adran Sgrinio rydym wedi sefydlu safon i bob adnodd fod ar gael mewn Saesneg, Cymraeg Clir, Hawdd ei Ddeall, Iaith Arwyddion Prydain a Sain Clir ar draws yr holl raglenni er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwybodaeth hygyrch. Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio wedi datblygu Canllaw Hawdd ei Ddarllen i gryfhau'r broses o ddatblygu adnoddau Hawdd eu Deall. Yn ogystal, mae Canllaw Arddull Ysgrifennu wedi'i ddatblygu i sicrhau bod iaith a therminoleg gyson yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu gwybodaeth gyhoeddus. Rydym wedi datblygu fideos Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer Bron Brawf Cymru (2023), Sgrinio Coluddion Cymru (2024) a Rhaglen Cymru ar gyfer Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen (2025).

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n tîm digidol wrth ailgynllunio tudalennau sgrinio gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchaf o ran hygyrchedd a swyddogaeth. Mae hyn yn cynnwys darparu fformat HTML ar gyfer darllenwyr sgrin. Mae ein rhaglenni Cyn Geni a

Newydd-anedig wedi symud i ddull gwybodaeth ddigidol yn gyntaf gyda fformatau print ar gael ar gais.

Nododd ymgysylltu nad yw llawer o bobl yn deall beth yw sgrinio na'i fanteision. Mewn ymateb rydym wedi datblygu fideo 'Beth Yw Sgrinio' syml a hygyrch. Fe'i cefnogir gan fanc asedau o adnoddau digidol y gellir eu rhannu gan ein sefydliad a'n partneriaid i roi neges glir a chyson i'r cyhoedd ar sgrinio. Er mwyn sicrhau bod ein gwybodaeth gyhoeddus yn gynrychioliadol o'n cymunedau, rydym wedi datblygu cronfa o ddelweddau sy'n gynhwysol a gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys addysg iechyd, adnoddau gwybodaeth gyhoeddus ac asedau cyfryngau cymdeithasol/cyfathrebu.

Yn 2025, roeddem hefyd yn gallu datblygu fideo 'Beth i'w ddisgwyl' ar gyfer Bron Brawf Cymru. Mae'r fideo hwn yn dangos y llwybr sgrinio o'r pwynt gwahodd i dderbyn canlyniadau. Mae'n tynnu sylw at yr ystod o gefnogaeth sydd ar gael i gyfranogwyr ac yn chwalu rhwystrau i fynychu trwy ddangos y llwybr sgrinio yn weledol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sy'n mynychu am y tro cyntaf.

Rydym wedi datblygu adnoddau a gwybodaeth wedi'u teilwra ar gyfer pobl o gymunedau rydym yn gwybod eu bod yn wynebu rhwystrau penodol i gael mynediad at sgrinio. Yn 2024 lansiwyd 'Gwybodaeth i ofalwyr a'r bobl maent yn eu cefnogi' gennym ar ein gwefan. Datblygwyd y tudalennau gwe a'r adnoddau cysylltiedig yn dilyn ymgysylltu helaeth â gofalwyr a fforymau gofalwyr i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r pryderon a'r rhwystrau roeddent yn eu hwynebu.

Yn 2025, lansiwyd adnoddau gennym ar gyfer pobl sy'n drawsryweddol neu'n anneuaidd. Gall pobl yn y gymuned hon wynebu rhwystrau penodol i fanteisio ar eu cynnig sgrinio a datblygwyd ein hadnoddau gyda'r gymuned i sicrhau eu bod yn berthnasol i fynd i'r afael â'u pryderon. Mae cyfres newydd o daflenni Hawdd eu Deall wedi'i datblygu ac yn dilyn adborth gan y gymuned, bu'r tîm yn gweithio'n agos gyda darlunydd i sicrhau bod y delweddau'n adlewyrchu'r gymuned. Mae adnoddau gwybodaeth wedi'u datblygu ar gyfer Gofal Sylfaenol. Bydd yr adnoddau hyn yn helpu staff i nodi pa brofion sgrinio sydd ar gael a sut y gall pobl sy'n draws neu'n anneuaidd gael mynediad atynt. Bydd hyn o gymorth iddynt wrth gefnogi eu cleifion.

Ym mis Gorffennaf 2024 cyhoeddodd y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio eu canllaw Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ymarferol i randdeiliaid ar sut i godi ymwybyddiaeth o sgrinio, gwella mynediad a lleihau rhwystrau i raglenni sgrinio'r GIG yng Nghymru. Datblygwyd yr adnodd hwn yn dilyn ymgysylltu helaeth fel rhan o'r Prosiect Lleiafrifoedd Ethnig gyda phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i nodi pa wybodaeth a chymorth ychwanegol oedd eu hangen i fanteisio ar eu cynnig sgrinio.

Datblygwyd safonau archwilio gennym ar gyfer ein llythyrau gwahoddiad i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Chanllawiau Argraffu Clir, egwyddorion Gwyddor Ymddygiad ac yn defnyddio Saesneg Clir i rannu ein gwybodaeth yn gywir. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr Gwyddor Ymddygiad o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu ein cyfathrebu â chyfranogwyr. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o lythyrau allweddol a anfonir gan raglenni at gyfranogwyr. Nod y gwaith hwn yw sicrhau ein bod yn defnyddio iaith glir, gryno ac ymarferol gyda galwad i weithredu ar gyfer cyfranogwyr.

## Cymuned ac Ymgysylltu

| Cymuned ac Ymgysylltu |
|---|
| **Ein hymrwymiad yw:**<br>• Adeiladu rhwydweithiau cynaliadwy gyda phobl o gymunedau lleol, y Trydydd Sector a sefydliadau statudol i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu cymunedol<br>• Deall y rhwystrau i fanteisio ar sgrinio mewn cymunedau lle mae nifer fach o bobl yn cael eu sgrinio, gan weithio gydag eiriolwyr a hyrwyddwyr cymunedol i feithrin ymddiriedaeth.<br>• Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a phobl o grwpiau heb eu gwasanaethu'n ddigonol, gyda gwahanol lefelau o lythrennedd iechyd sgrinio, mewn panel dinasyddion i lywio a chefnogi'r dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar draws yr is-adran a'r sefydliad. |

Mae gan ein Tîm Ymgysylltu â Sgrinio rwydwaith eang o randdeiliaid gyda phartneriaethau cymunedol sefydledig. Mae rhaglenni sgrinio unigol hefyd yn adeiladu eu swyddogaeth ymgysylltu gydag Arweinydd Rhanddeiliaid ac Ymgysylltu o fewn Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid o fewn Sgrinio Coluddion Cymru (BSW). Mae'r timau hyn yn gweithio gyda'r gymuned a grwpiau gwirfoddol ac unigolion sy'n cynrychioli grwpiau iechyd heb ddigon o wasanaethau a chynhwysiant. Mae'r timau'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol ledled Cymru gyda ffocws ar ddigwyddiadau mewn ardaloedd neu gyda chymunedau lle mae nifer fach o bobl yn manteisio ar gael eu sgrinio.

Rydym wedi mabwysiadu model hyfforddi ac addysg cymunedol sy'n darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth sgrinio i weithwyr cymunedol fel y gallant weithredu fel eiriolwyr dros sgrinio o fewn cymunedau. Mae'r model hwn yn sicrhau y gellir rhannu negeseuon sgrinio yn eang a thrwy leisiau dibynadwy a sefydlir o fewn cymunedau. Mae'r hyfforddiant am ddim yn cwmpasu pob agwedd ar sgrinio, gan gynnwys anghydraddoldebau mewn rhaglenni sgrinio, canser a rhaglenni nad ydynt yn ganser. Mae'r sesiynau'n galluogi cyfranogwyr i ofyn cwestiynau am sgrinio ac i gael syniadau ar sut y gallant gefnogi'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, cyfeirio at wasanaethau a chael mynediad at adnoddau sgrinio. Yn 2024/25, cynhaliwyd deg sesiwn gyda dros 150 o gyfranogwyr yn bresennol.

Er mwyn darparu cefnogaeth barhaus i hyrwyddwyr sgrinio cymunedol, mae Rhwydwaith Ymgysylltu Sgrinio wedi'i sefydlu. Mae hyn yn sicrhau cysylltiad rheolaidd â'r Is-adran Sgrinio fel y gall hyrwyddwyr cymunedol gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sgrinio a chreu platfform ar gyfer cydweithio, rhannu a dysgu. Mae'r Is-adran Sgrinio hefyd yn cynhyrchu bwletin cyfathrebu 'Materion Sgrinio' a anfonir at bartneriaid gyda diweddariadau a gwybodaeth am sgrinio.

Mae datblygiad y panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus wedi rhoi cyfle i ofyn cwestiynau i aelodau'r panel cynrychioliadol am sgrinio er mwyn llywio datblygiad gwasanaethau. Nid yw sefydlu panel dinasyddion wedi'i ddatblygu o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar lefel sefydliadol ac mae'r Is-adran Sgrinio wedi mabwysiadu dull wedi'i dargedu'n fwy trwy ymgysylltu i gasglu mewnwelediadau a deall rhwystrau i grwpiau heb ddigon o wasanaethau. Mae hyn wedi'i ddangos wrth gynhyrchu adnoddau ar y cyd, gan gynnwys fformatau hawdd eu deall, i gefnogi pobl ar bob lefel o lythrennedd iechyd i gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt am sgrinio.

## Cydweithredu

| Cydweithredu |
| --- |
| **Ein hymrwymiad yw:**<br>• Cefnogi ein partneriaid fel arweinwyr systemau mewn sgrinio drwy ddarparu data, adnoddau ac arbenigedd.<br>• Datblygu gofod dysgu a rennir ar gyfer adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio dulliau cymunedol dan arweiniad lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sgrinio.<br>• Ehangu ein cydweithrediad â gwasanaethau gofal sylfaenol yn eu rôl o gefnogi a chyflwyno rhaglenni sgrinio trwy ddefnyddio eu cymeradwyaeth fel lleisiau dibynadwy ar gyfer eu cleifion |

Mae'r grŵp Sgrinio ac Anghydraddoldebau yn parhau i gysylltu Timau Iechyd y Cyhoedd y Byrddau Iechyd a'r Is-adran Sgrinio. Mae'r grŵp yn fforwm ar gyfer rhannu dysgu am waith lleol a chenedlaethol a datblygiadau newydd o fewn y rhaglenni. Mae'r Is-adran Sgrinio hefyd yn darparu cynrychiolaeth i Fforymau/Byrddau Canser y Byrddau Iechyd pan ofynnir am hynny fel rhan o ffocws y Bwrdd Iechyd ar ddulliau ataliol a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae tudalennau gwe Gwybodaeth Sgrinio ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol yn darparu gofod dysgu a rennir i gael mynediad at adnoddau a gwybodaeth benodol am sgrinio. Yn dilyn ymgysylltu ag arweinwyr clwstwr, mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio wedi datblygu, mewn partneriaeth â Hwb Gofal Sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru, dudalennau Sharepoint ar gyfer Gofal Sylfaenol i lywio cynllunio clwstwr Gofal Sylfaenol. Bydd y tudalennau hyn yn cynnwys mynediad at ddata, ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a phecynnau cymorth arferion gorau. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gychwyn gyda rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru ac yna bydd yn cael ei gyflwyno i raglenni eraill.

Mae'r Adran Sgrinio yn ymgysylltu â gofal sylfaenol trwy glystyrau, gan ddarparu diweddariadau sy'n gysylltiedig â sgrinio a chyfleoedd ar gyfer cydweithio. Mae hyn wedi cynnwys cymeradwyo llythyrau gwahoddiad sgrinio'r coluddion gan feddygon teulu. Mae hyn yn defnyddio'r llais dibynadwy y mae darparwyr gofal sylfaenol yn ei olygu i gyfranogwyr i annog pobl i fanteisio ar eu cynnig sgrinio.

## Cyflenwi Gwasanaethau

| Cyflenwi gwasanaethau |
| --- |
| **Ein hymrwymiad yw:**<br>• Mapio teithiau defnyddwyr i nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer gweithredu rhagweithiol i wella mynediad at sgrinio a chael gwared ar rwystrau diangen.<br>• Sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud drwy gamau cadarnhaol, yn cynnwys darparu opsiynau lluosog i bobl ag anableddau gyfathrebu â rhaglenni<br>• Mabwysiadu dull cyson o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb Iechyd sy'n sicrhau bod newidiadau gweithredol yn gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol a grwpiau cynhwysiant |

Mae'r Is-adran Sgrinio wedi ymrwymo i sefydlu Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu o fewn y rhaglenni. Bydd gan bob rhaglen Hyrwyddwr/Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu enwebedig a fydd yn eiriol dros gynhwysiant i unigolion ag anableddau dysgu, gan sicrhau bod prosesau ar waith i wneud yn siŵr eu

bod yn derbyn gofal, cefnogaeth a mynediad priodol at wasanaethau sgrinio.

Mae rhaglenni'n parhau i gynnig addasiadau rhesymol gan gynnwys hyblygrwydd o amgylch apwyntiadau gan gynnwys cynnig apwyntiadau cynnar/hwyr, apwyntiadau hirach ac ymweliadau â'r safle ymlaen llaw lle bo modd. Er mwyn lleihau pryder ynghylch mynychu lleoliad anghyfarwydd, mae fideo sy'n dangos taith sgrinio'r fron wedi'i gyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid. Mae'r fideo hwn 'beth i'w ddisgwyl' wedi derbyn adborth cadarnhaol gan bartneriaid a chyfranogwyr. Mae hyn yn rhan o ffocws ar wella'r profiad i'r rhai sy'n mynychu am y tro cyntaf.

Mewn ymateb i adborth gan gyfranogwyr ar rwystrau i fanteisio ar y cynnig sgrinio, mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru bellach yn cynnig clinigau gyda'r nos a dydd Sadwrn i wella hygyrchedd i oedolion o oedran gweithio a'r rhai sy'n dibynnu arnynt i gael mynediad at sgrinio llygaid. Mae pob rhaglen wedi sefydlu dulliau cyfathrebu lluosog i ddefnyddwyr gwasanaeth gysylltu â'r rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post.

Rydym yn parhau i weithio i ymgorffori Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd fel rhan o arfer arferol yn yr Is-adran Sgrinio gan ddefnyddio offeryn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd pwrpasol a ddatblygwyd gan y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio a thîm canolog Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd cyn newidiadau mawr i ddarparu gwasanaethau megis cyflwyno'r llwybr adalw risg isel yn Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru.

Mae gan yr Is-adran Sgrinio grŵp Carchardai a Lleoliadau Gofal Hirdymor sefydledig i sicrhau bod pobl yn y lleoliadau hyn yn cael eu gwahodd yn briodol i gael eu sgrinio pan fyddant yn gymwys. Mae'r rhaglenni wedi sefydlu cysylltiadau â phob carchar yng Nghymru ac yn gallu cynnig sgrinio yn y lleoliadau hynny. Mae hyn wedi cynnwys gweithio'n agos gyda charchardai i sicrhau bod cyfranogwyr cymwys yn cael eu hadnabod yn amserol gan y gall cwblhau'r llwybr sgrinio cyn rhyddhau fod yn heriol. Mae'r grŵp yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth EF i ystyried mecanwaith mwy awtomataidd ar gyfer nodi'r garfan gymwys o fewn lleoliadau carchar fel y gellir gwneud cynnig teg.

## Data a Monitro

| Data a monitro |
|---|
| **Ein hymrwymiad yw:**<br>• Cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol i roi mynediad at ddata ystyrlon o ran anghydraddoldebau sgrinio a'r nifer sy'n cael eu sgrinio a all lywio camau gweithredu.<br>• Datblygu dull cynaliadwy o fonitro'r nifer sy'n cael eu sgrinio yn ôl cymunedau ethnig lleiafrifol a grwpiau eraill nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, a chefnogi dulliau lleol a chenedlaethol i wella casglu data.<br>• Sicrhau atebolrwydd am gamau gweithredu i leihau anghydraddoldebau o ran sgrinio drwy gyflwyno mesurau a dangosyddion canlyniad anghydraddoldeb ar gyfer pob rhaglen sgrinio |

Mae cyhoeddi'r Adroddiad Anghydraddoldeb Sgrinio hwn yn un o'n hymrwymiadau, yn rhannu data ond hefyd yn ddiweddariad ar ein camau gweithredu i gyflawni'r Strategaeth Tegwch Sgrinio. Mae'r adroddiad tegwch blynyddol yn canolbwyntio ar y rhaglenni sgrinio canser a'r rhaglenni sgrinio nad

ydynt yn ganser ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. Gan fod y nifer sy'n manteisio ar y rhaglenni sgrinio newydd-anedig yn uchel, nid yw eu data'n cael ei haenu'n rheolaidd i bennu'r nifer sy'n manteisio ar y sgrinio yn ôl ffactorau anghydraddoldeb. Mae data ar sgrinio cynenedigol yng Nghymru yn cael ei gadw o fewn Byrddau Iechyd fel darparwr y sgrinio drwy'r gwasanaethau cynenedigol a bydwreigiaeth.

Mae'r adroddiad anghydraddoldeb yn cynnwys data nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio yn ôl penderfynyddion sy'n hysbys o fewn y setiau data sgrinio. Nid ydym yn gallu cofnodi ethnigrwydd yn rheolaidd o fewn pob system rheoli gwybodaeth sgrinio. Mae adroddiadau ar nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio yn ôl ethnigrwydd yn gofyn am gysylltiad data â ffynonellau data eraill megis drwy gronfa ddata SAIL. Mae'r Adran Sgrinio yn cefnogi prosiect ymchwil Iechyd y Cyhoedd a fydd yn edrych ar nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio, canlyniadau canser a nifer o benderfynyddion posibl ar gyfer nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio megis ethnigrwydd gan ddefnyddio cysylltiadau data o fewn cronfa ddata SAIL.

Yn ogystal, mae'r Is-adran yn gweithio gyda Thîm Anableddau Dysgu Gwelliant Cymru i beilota cysylltu data yng Ngogledd Cymru rhwng cofrestrau meddygon teulu gofal sylfaenol pobl ag anableddau dysgu ac is-adran sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru i bennu nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n cael eu sgrinio.

## Data ar Anghydraddoldeb y nifer a fanteisiodd ar sgrinio

Archwilir data yn yr adroddiad hwn yn ôl oedran (gan ein bod yn casglu dyddiad geni), rhywedd, a lleoliad daearyddol. Rydym hefyd yn gallu deillio mesur amddifadedd yn seiliedig ar ardal gan ddefnyddio cod post.
Rydym yn cyflwyno data un rhaglen ar y tro, gan edrych ar y mesurau canlynol:

**Ardal Ddaearyddol**
Darperir sgrinio fel rhaglenni Cymru gyfan ar draws pob un o'r saith ardal bwrdd iechyd. Cyflwynir rhaglenni sgrinio gan ddefnyddio gwahanol fodelau mynediad gan gynnwys sgrinio yn y cartref, darpariaeth gofal sylfaenol a lleoliadau sgrinio mewn canolfannau gofal iechyd a chlinigau symudol. Er mwyn deall a fanteisir ar sgrinio yn gyfartal ledled Cymru, archwiliwyd y nifer a fanteisiodd ar raglenni sgrinio/cwmpas yn ôl lleoliad daearyddol cyfranogwyr cymwys. Diffinnir lleoliad daearyddol gan ddefnyddio cyfeiriad cartref y cyfranogwr gwadd ac yna ei ddyrannu i fwrdd iechyd ac awdurdod lleol.

**Amddifadedd**
Rydym yn edrych ar amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD). Rhoddir sgôr gan ystyried nifer o ddangosyddion gwahanol gan gynnwys incwm a chyflogaeth, yn seiliedig ar yr ardal fach (Ardaloedd Cynnydd Ehangach Lleol) lle mae'r cyfranogwr yn byw. Yn yr adroddiad hwn, mae Cwintel 1 yn cyfeirio at y rhai sy'n byw yn y pumed Ardal Cynnydd Ehangach Lleol (LSOA) mwyaf difreintiedig o LSOAs yng Nghymru ac mae Cwintel 5 yn cyfeirio at y rhai sy'n byw yn y pumed ardal LSOA leiaf difreintiedig yng Nghymru.

**Oedran**
Mae'r tair rhaglen sgrinio canser a sgrinio llygaid diabetig yn gwahodd cyfranogwyr ar sail ysbeidiol. Felly gellir archwilio'r nifer a fanteisiodd ar raglenni sgrinio/cwmpas ar gyfer gwahanol grwpiau

oedran. Bydd oedran cyfranogwyr gwadd hefyd yn dylanwadu ar ba fath o wahoddiad y mae'r unigolyn wedi'i dderbyn, gan y bydd y grwpiau oedran ieuengaf yn cael eu gwahodd am y tro cyntaf a bydd grwpiau oedran hŷn yn cael eu gwahodd i apwyntiad adalw.

**Rhywedd**
Nid yw'r cymhwysedd ar gyfer y rhaglenni sgrinio'r coluddion a llygaid diabetig yn dibynnu ar rywedd, felly gellir archwilio gwahaniaethau yn y nifer sy'n manteisio ar sgrinio gan ddefnyddio'r rhywedd sydd wedi'i gofnodi ar system y meddyg teulu.

**Math o Wahoddiad**
Mae'r gwahanol fathau o wahoddiad yn cynnwys y rhai sydd wedi'u gwahodd am y tro cyntaf, y rhai sydd wedi cael gwahoddiad o'r blaen ond na wnaethant dderbyn y gwahoddiad (rhywun nad oedd wedi ymateb o'r blaen), a'r rhai sydd wedi cael gwahoddiad o'r blaen ac sydd wedi cymryd rhan o'r blaen (ymatebydd blaenorol).

Ni chyflwynir data yma ar gyfer y rhaglenni sgrinio newydd-anedig neu gyn geni. Ar gyfer clyw newydd-anedig a smotyn gwaed newydd-anedig, mae'r nifer a fanteisiodd ar raglenni sgrinio/cwmpas yn gyson uchel iawn ac nid oes unrhyw amrywiad i'w weld gan y ffactorau y gallwn eu mesur. I Sgrinio Cyn Geni Cymru, mae hyn oherwydd bod cyfrifoldeb am ddarparu sgrinio yn nwylo'r byrddau iechyd a nhw sy'n berchen ar y data. Nid yw'n briodol ychwaith ystyried y nifer a fanteisiodd ar sgrinio o fewn rhai elfennau o'r rhaglenni sgrinio cyn geni gan fod y profion sgrinio wedi'u canolbwyntio ar alluogi dewis. Disgwylir y bydd system wybodaeth mamolaeth newydd yn cael ei chyflwyno ledled Cymru yn 2026. Fel rhan o safonau adrodd Cymru gyfan, bydd data ethnigrwydd a meysydd data cydraddoldeb eraill yn safonol i bob cyfranogwr mewn sgrinio smotyn gwaed y newydd-anedig a chyn geni, a ddylai ddarparu data da wrth symud ymlaen.

## Canfyddiadau allweddol o'r data

- Mae amrywiad daearyddol yn y nifer a fanteisiodd ar sginio ar lefel ardal y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol.
- Mae graddiant cymdeithasol yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio, mae pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn llai tebygol o dderbyn eu cynnig sgrinio o'i gymharu â'r rhai sy'n byw yn y cymunedau lleiaf difreintiedig.
- Ar gyfer rhaglenni sy'n gwahodd pobl ar draws grwpiau oedran, mae anghydraddoldeb yn y nifer a fanteisiodd ar y cynnig sgrinio. Mae pobl mewn grwpiau oedran iau yn llai tebygol o fanteisio ar eu cynnig sgrinio na phobl mewn grwpiau oedran hŷn.
- Ar gyfer y rhaglen sgrinio llygaid diabetig sy'n gwahodd pobl ar draws cwrs bywyd, mae'r cwmpas yn amrywio yn ôl oedran, fodd bynnag, mae'r nifer a fanteisiodd ar wasanaethau sgrinio yn uwch yn y grwpiau oedran ieuengaf gyda'r nifer isaf a fanteisiodd ar wasanaethau sgrinio mewn oedolion o oedran gweithio.
- Ar gyfer rhaglenni sy'n gwahodd pob rhywedd i gymryd rhan mewn sgrinio, mewn sgrinio'r coluddion mae anghydraddoldeb o ran y nifer a fanteisiodd ar y cynnig, gyda dynion yn llai tebygol o fanteisio ar eu cynnig na menywod, er bod y bwlch anghydraddoldeb yn fach. Ar

gyfer sgrinio llygaid, mae bwlch anghydraddoldeb gyda menywod yn llai tebygol na dynion o dderbyn eu cynnig sgrinio, er bod y bwlch anghydraddoldeb yn fach.

- Ar gyfer rhaglenni lle mae pobl yn cael eu gwahodd fwy nag unwaith, mae pobl sydd wedi mynychu o'r blaen yn fwy tebygol o ymateb i wahoddiadau dilynol.

## Bron Brawf Cymru

Nod Bron Brawf Cymru yw lleihau marwolaethau o ganser y fron, gyda menywod 50 i 70 oed yn cael eu gwahodd i gael mamogram bob tair blynedd. Gall menywod dros 70 oed gyfeirio eu hunain i'r rhaglen sgrinio. Mae Bron Brawf Cymru yn cael ei ddarparu ar draws tri rhanbarth daearyddol ac mae canolfannau yng Nghaerdydd, Abertawe, Llandudno a Wrecsam. Mae un ar ddeg o unedau symudol yn gweithio ledled Cymru i ddarparu profion sgrinio lleol i fenywod sy'n byw gryn bellter o ganolfan, ac maent yn ymweld â dros 100 o safleoedd ym mhob cylch sgrinio tair blynedd. Mae'r model darparu gwasanaeth o fewn Bron Brawf Cymru yn gwahodd cyfranogwyr yn seiliedig ar eu meddygfa teulu lle maent wedi cofrestru.

Gwahoddwyd cyfanswm o 151,155 o bobl i gymryd rhan mewn sgrinio'r fron yn 2022/23, gyda 105,076 o bobl yn manteisio ar y cynnig. Yn 2023/24, gwahoddwyd cyfanswm o 174,364 o bobl i gymryd rhan mewn sgrinio'r fron gyda 119,393 o bobl yn manteisio ar y cynnig. Mae'r nifer cynyddol o bobl sy'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn sgrinio'r fron yn dangos adferiad y rhaglen sgrinio'r fron yn dilyn pandemig Covid-19. Adroddir ar y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron fel cyfran y cyfranogwyr gwadd a fynychodd ac a gafodd eu sgrinio o fewn chwe mis i'r gwahoddiad. Yn 2022/23, roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio ledled Cymru yn 69.5%, ychydig islaw'r safon o 70%, gyda'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn 2023/24 yn parhau islaw'r safon ar 68.5%.

### Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal ddaearyddol


Yn 2022/23, roedd amrywiad daearyddol yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio ledled Cymru ar lefel ardal y Bwrdd Iechyd gyda'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn amrywio o 61.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i 73.7% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (Tabl 1).

*Tabl 1: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23*

| Bwrdd Iechyd | Gwahoddwyd (n) | Sgriniwyd (n) | Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 22787 | 15299 | 67.1 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 31955 | **22934** | 71.8 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 9822 | 6003 | 61.1 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 30260 | 20647 | 68.2 |
| **BIP Hywel Dda** | 22074 | 15921 | 72.1 |
| **BI Addysgu Powys** | 19529 | 14400 | 73.7 |
| **BIP Bae Abertawe** | 14684 | 9843 | 67.0 |
| **Cymru Gyfan** | **151155** | **105076** | **69.5** |

Nid yw cyfanswm Cymru yn adio'n union gan na ellir neilltuo ychydig o bobl i fwrdd iechyd.

Mae amrywiad daearyddol mwy o ran y nifer a fanteisiodd ar sgrinio a nodwyd yn ardal yr Awdurdod Lleol, yn amrywio o'r uchaf o 76.2% yn Sir Ddinbych i'r isaf o 57.5% yng Nghaerdydd (Ffigur 1).




*Ffigur 1: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2022/23*


Yn 2023/24, roedd amrywiad daearyddol yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio ledled Cymru ar lefel ardal y Bwrdd Iechyd gyda'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn amrywio o 36.3% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys i 73.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Tabl 2). Dylid nodi mai dim ond nifer fach o bobl oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys a wahoddwyd yn 2023/24. Felly dylid dehongli'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn ofalus oherwydd yr amrywiadau a welir yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio gyda niferoedd bach.

*Tabl 2: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24*

| Bwrdd Iechyd | Gwahoddwyd (n) | Sgriniwyd (n) | Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 39022 | 27165 | 69.6 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 41681 | 28136 | 67.5 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 34531 | 23687 | 68.6 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 11541 | 8443 | 73.2 |
| **BIP Hywel Dda** | 19849 | 13616 | 68.6 |
| **BI Addysgu Powys** | 1631 | 592 | 36.3 |
| **BIP Bae Abertawe** | 25890 | 17631 | 68.1 |
| **Cymru Gyfan** | **174364** | **119393** | **68.5** |

Nid yw cyfanswm Cymru gyfan yn adio'n union gan na ellir neilltuo ychydig o bobl i fwrdd iechyd.

Mae amrywiad daearyddol yn ôl ardal Awdurdod Lleol gyda'r nifer uchaf a fanteisiodd ar sgrinio ym Mhen-y-bont ar Ogwr sef 79.3% a'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio yng Ngheredigion sef 12.9%. Dylid nodi bod nifer fach o fenywod wedi cael eu gwahodd i gael eu sgrinio yn 2023/24 yng Ngheredigion a Merthyr Tudful ac felly dylid trin y niferoedd hyn yn ofalus.





***Ffigur 2: Y nifer (%) a fanteisiodd ar Sgrinio'r Fron yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2023/24***

## Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl amddifadedd

Mae ein data yn dangos bod graddiant cymdeithasol yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron, gyda mwy o amddifadedd yn gysylltiedig â'r nifer llai a fanteisiodd ar sgrinio'r fron.

Yn 2022/23, ledled Cymru roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (cwintel 1) yn 56.9% o'i gymharu â 76.5% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (cwintel 5). Mae graddiant cymdeithasol yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio ar draws holl ardaloedd y Byrddau Iechyd gyda'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ac uchaf yn y cymunedau lleiaf difreintiedig (ffigur 3).





***Ffigur 3: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23***

Y bwlch anghydraddoldeb absoliwt rhwng y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn y cwintel lleiaf difreintiedig o'i gymharu â'r cwintel mwyaf difreintiedig yw 19.6% yn 2022/23. O'i gymharu â 2021/22, mae hyn wedi cynyddu o fwlch anghydraddoldeb o 15.3%. Ceir y bwlch anghydraddoldeb mwyaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sef 25.3% a'r isaf ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys sef 14.5% (tabl 3).

***Tabl 3: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23***

| Bwrdd Iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 52.4 | 77.6 | 25.3 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 60.5 | 78.9 | 18.4 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 51.3 | 71.7 | 20.3 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 60.1 | 76.2 | 16.0 |
| **BIP Hywel Dda** | 62.3 | 80.1 | 17.8% |
| **BI Addysgu Powys** | 61.1 | 75.6 | 14.5 |
| **BIP Bae Abertawe** | 57.3 | 74.1 | 16.8 |
| **Cymru Gyfan** | **56.9** | **76.5** | **19.6** |

Yn 2023/24, ledled Cymru, roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (cwintel 1) yn 59.1% o'i gymharu â 76.4% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (cwintel 5). Mae graddiant cymdeithasol yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio ar draws holl ardaloedd y Byrddau Iechyd gyda'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ac uchaf yn y cymunedau lleiaf difreintiedig (ffigur 4). Nid yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn dangos graddiant cymdeithasol ond gan fod niferoedd bach iawn yn gysylltiedig â chasglu data eleni, dylid dehongli hyn yn ofalus.




***Ffigur 4: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24***

Yn 2023/24, y bwlch anghydraddoldeb absoliwt rhwng y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn y cwintel lleiaf difreintiedig o'i gymharu â'r cwintel mwyaf difreintiedig yw 17.3%. O'i gymharu â 2022/23 mae hyn wedi gostwng o 19.6% ond mae'n parhau yn uwch nag yn 2021/22 sef 15.3%. Y bwlch anghydraddoldeb mwyaf yw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sef 21.1%, a'r isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sef 10.4% (tabl 4).


***Tabl 4: Bwlch anghydraddoldeb (%) absoliwt y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24***

| Bwrdd Iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 61.0 | 78.2 | 17.2 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 54.3 | 75.4 | 21.1 |
| **BIP Caerdydd a’r Fro** | 54.4 | 75.5 | 21.1 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 64.6 | 83.6 | 19.0 |
| **BIP Hywel Dda** | 64.5 | 74.9 | 10.4 |
| **BI Addysgu Powys** | 39.6 | 55.3 | 15.7 |
| **BIP Bae Abertawe** | 60.4 | 75.6 | 15.2 |
| **Cymru Gyfan** | **59.1** | **76.4** | **17.3** |

## Nifer y rhai a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl oedran


Ar draws Cymru yn 2022/23, roedd y nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio’r fron yn y grŵp oedran ieuengaf (50-52 oed) oedd yn gymwys i gael eu sgrinio, sef 63.3%, o'i gymharu â 70.8% yn y grŵp

oedran hynaf oedd yn gymwys i gael eu sgrinio (65-70 oed). Mae'r duedd ar gyfer y nifer is a fanteisiodd ar sgrinio mewn grwpiau oedran iau o'i gymharu â grwpiau oedran hŷn yn gyson â blynyddoedd blaenorol (ffigur 5).




*Ffigur 5: Nifer (%) y rhai a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl grŵp oedran yng Nghymru, 2022/23*

Ar draws Cymru yn 2023/24, roedd y nifer isaf o fenywod 53-54 oed a fanteisiodd ar sgrinio'r fron sef 67.0%, ac yna'r rhai 55-59 oed sef 67.3%. Cynyddodd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn y grŵp oedran ieuengaf (50-52 oed) i 70.5% a dyma'r nifer uchaf a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl grŵp oedran mewn cyferbyniad â data 2022/23 pan oedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn y grŵp oedran hwn ar ei isaf (ffigur 6).




*Ffigur 6: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl grŵp oedran yng Nghymru, 2023/24*

## Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl y math o wahoddiad

Yn ogystal ag edrych yn ôl oedran, gallwn hefyd edrych ar y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yn ôl y math o wahoddiad. Yn 2022/23 ledled Cymru, mae pobl sydd wedi mynychu o'r blaen (cyfranogwyr adalw) yn fwyaf tebygol o fynychu eto, sef 82%. Mae pobl sy'n cael eu gwahodd am y tro cyntaf (prawf cyntaf) yn llai tebygol o fynychu, sef 64.3%. Fodd bynnag, gwelir y nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio ymhlith pobl sydd wedi cael gwahoddiad o'r blaen ond nad ydynt wedi mynychu (prawf dilynol) sef 20.7% (tabl 5).

*Tabl 5: Nifer (%) y rhai a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yng Nghymru yn ôl y math o wahoddiad, 2022/23*

| Math o Wahoddiad | Gwahoddwyd (n) | Sgriniwyd (n) | Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **Prawf Cyntaf** | 21591 | 13888 | 64.3 |
| **Prawf dilynol** | 24581 | 5093 | 20.7 |
| **Adalw** | 104983 | 86095 | 82.0 |

Yn 2023/24, arhosodd pobl a oedd wedi mynychu o'r blaen (cyfranogwyr adalw) yn fwyaf tebygol o fynychu eto, sef 80.9%. Roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio a gafodd wahoddiad am y tro cyntaf wedi cynyddu o 64.3% yn 2022/23 i 65.9%. Parhaodd y nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio a oedd wedi cael gwahoddiad o'r blaen ond nad oeddent wedi mynychu, sef 19.9% (tabl 6).

***Tabl 6: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r fron yng Nghymru yn ôl y math o wahoddiad 2023/24***

| Math o Wahoddiad | Gwahoddwyd (n) | Sgriniwyd (n) | Y nifer a fanteisiodd ar brawf sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **Prawf Cyntaf** | 26050 | 17169 | 65.9 |
| **Prawf dilynol** | 29201 | 5816 | 19.9 |
| **Adalw** | 119113 | 96408 | 80.9 |

## Sgrinio Coluddion Cymru

Nod Sgrinio Coluddion Cymru yw lleihau'r nifer sy'n marw o ganser y coluddyn yng Nghymru trwy adnabod canser yn gynnar pan fo triniaeth yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus. Gall Sgrinio Coluddion Cymru hefyd atal canser y coluddyn trwy adnabod a thynnu tyfiannau cyn-ganseraidd. Yn dilyn optimeiddio'r rhaglen, mae pobl rhwng 50 a 74 oed bellach yn gymwys i gael sgrinio'r coluddion.

Yn 2022/23, gwahoddwyd 414,032 o bobl i gymryd rhan mewn sgrinio'r coluddion gyda 272,928 o bobl yn manteisio ar y cynnig o brawf sgrinio. Adroddir ar y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion fel y gyfran o gyfranogwyr a wahoddwyd a fanteisiodd ar sgrinio o fewn chwe mis i'r gwahoddiad, Y safon isafswm ar gyfer manteisio ar sgrinio ar draws y rhaglen yw 60%. Ar draws Cymru yn 2022/23, roedd y gyfradd a fanteisiodd ar sgrinio yn 65.9%.

Yn 2023/24, gwahoddwyd 490,374 o bobl i gymryd rhan mewn sgrinio'r coluddion gyda 321,300 o bobl yn manteisio ar y cynnig o brawf sgrinio. Adroddir ar y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion fel cyfran y cyfranogwyr a gafodd eu gwahodd a sgriniwyd o fewn chwe mis i'r gwahoddiad, sy'n golygu mai dyma'r data diweddaraf sydd ar gael ym mis Hydref 2024. Ar draws Cymru yn 2023/24, roedd y gyfradd a fanteisiodd ar  sgrinio yn 65.5%, uwchlaw'r safon o 60%.

## Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal ddaearyddol


Ychydig o amrywiad daearyddol sydd yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio ledled Cymru ar lefel y Bwrdd Iechyd, gyda'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio'n amrywio o 65.0% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 67.3% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (tabl 7).

***Tabl 7: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23***

| Bwrdd Iechyd | Gwahoddwyd(n) | Sgriniwyd (n) | Y nifera fanteisiodd ar sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 77750 | 51480 | 66.2 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 96444 | 63527 | 65.9 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 55424 | 36269 | 65.4 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 57368 | 37468 | 65.3 |
| **BIP Hywel Dda** | 56716 | 37935 | 66.9 |
| **BI Addysgu Powys** | 20964 | 14183 | 67.7 |
| **BIP Bae Abertawe** | 49219 | 31975 | 65.0 |
| **Cymru Gyfan** | **414032** | **272928** | **65.9** |

Mae'r cyfanswm yn cynnwys nifer fach o bobl nad oes ganddynt ardal y bwrdd iechyd maent yn byw ynddi wedi'i nodi.

Fodd bynnag, nodir amrywiad daearyddol mwy o ran y nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn ardal yr Awdurdod Lleol, yn amrywio o 60.5% ym Merthyr Tudful i 71.5% yn Sir Fynwy (Ffigur 7). Mae'r awdurdodau lleol sydd â'r niferoedd uchaf ac isaf a fanteisiodd ar sgrinio wedi aros yr un fath o 2021/22. Mae pob ardal awdurdod lleol uwchlaw'r safon o 60%.




***Ffigur 7: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2022/23***


Yn 2023/24, ychydig iawn o amrywiad daearyddol sydd yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio ledled Cymru ar lefel ardal y Bwrdd Iechyd, gyda'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn amrywio o 64.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 67.3% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (tabl 8).

***Tabl 8: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24***

| Bwrdd Iechyd | Gwahoddwyd (n) | Sgriniwyd (n) | Y nifer sa fanteisiodd ar sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 91682 | 59761 | 65.2% |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 114957 | 75792 | 65.9% |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 66742 | 43608 | 65.3% |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 67538 | 43564 | 64.5% |
| **BIP Hywel Dda** | 66837 | 44794 | 67.0% |
| **BI Addysgu Powys** | 24617 | 16560 | 67.3% |
| **BIP Bae Abertawe** | 57503 | 36910 | 64.2% |
| **Cymru Gyfan** | **490374** | **321300** | **65.5** |

Mae'r cyfanswm yn cynnwys nifer fach o bobl nad oes ganddynt ardal bwrdd iechyd maent yn byw ynddi wedi'i nodi.


Fodd bynnag, nodir amrywiad daearyddol mwy o ran y nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn ardal yr Awdurdod Lleol, yn amrywio o 59.8% ym Merthyr Tudful i 70.7% yn Sir Fynwy (ffigur 8). Mae'r awdurdodau lleol sydd â'r niferoedd uchaf ac isaf a fanteisiodd ar sgrinio wedi aros yr un fath o'r flwyddyn flaenorol.




***Ffigur 8: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2023/24***

## Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl amddifadedd

Ar draws Cymru yn 2022/23, roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion ar ei uchaf yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig sef 72.8%, gyda'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio coluddion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sef 56.6%. Gwelir y cysylltiad rhwng y nifer a fanteisiodd ar sgrinio ac amddifadedd ar draws pob ardal bwrdd iechyd yng Nghymru, gyda'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion ar ei uchaf yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ac ar ei isaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (ffigur 9).





***Ffigur 9: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23***

Yn 2022/23 yng Nghymru, y gwahaniaeth absoliwt rhwng y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yw 16.2% sydd ychydig yn uwch na 2021/22 sef 15.9%. Roedd y bwlch anghydraddoldeb yn amrywio o 11.6% ym Mwrdd iechyd Addysgu Powys i 20.7% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol  Caerdydd a'r Fro (tabl 9).

***Tabl 9: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23***

| Bwrdd Iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 58 | 74 | 16 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 54.6 | 71.2 | 16.6 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 52.8 | 73.5 | 20.7 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 58.8 | 74.4 | 15.6 |
| **BIP Hywel Dda** | 57.7 | 71.8 | 14.1 |
| **BI Addysgu Powys** | 58.7 | 70.3 | 11.6 |
| **BIP Bae Abertawe** | 56.9 | 72.3 | 15.4 |
| **Cymru Gyfan** | **56.6** | **72.8** | **16.2** |

Ar draws Cymru yn 2023/24, roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion ar ei uchaf yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig sef 72.7%, gyda'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sef 55.8%. Gwelir y cysylltiad rhwng y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion ac amddifadedd ar draws pob ardal y byrddau iechyd yng Nghymru, gyda'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio coluddion ar ei uchaf yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ac ar ei isaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (ffigur 10).




***Ffigur 10: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24***


Ar draws Cymru yn 2023/24, y gwahaniaeth absoliwt rhwng y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yw 16.9% sydd ychydig yn uwch nag yn 2022/23 sef 16.2%. Mae hyn oherwydd gostyngiad bach yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Roedd y bwlch anghydraddoldeb yn amrywio o 13.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i 20.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (tabl 10).

***Tabl 10: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24***

| Bwrdd Iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 55.8 | 73.6 | 17.8 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 54.7 | 72.2 | 17.5 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 53.1 | 73.5 | 20.4 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 58.3 | 72.5 | 14.2 |
| **BIP Hywel Dda** | 57.4 | 70.6 | 13.2 |
| **BI Addysgu Powys** | 56.7 | 71.9 | 15.2 |
| **BIP Bae Abertawe** | 55.6 | 71.9 | 16.3 |
| **Cymru Gyfan** | **55.8** | **72.7** | **16.9** |


## Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl oedran

Ar draws Cymru yn 2022/23, roedd y nifer isaf o bobl a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn y grŵp oedran ieuengaf (55 i 57 oed) sef 60.9%, o'i gymharu â'r uchaf o 70.3% yn y grŵp oedran 65 i 69 oed gyda'r uchaf nesaf yn y grŵp oedran 70 i 74 oed sef 68.6%. Gwelir y patrwm hwn ar draws holl ardaloedd y Byrddau Iechyd yng Nghymru (ffigur 11).




***Ffigur 11: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl grŵp oedran yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23***

Ar draws Cymru yn 2023/24, mae'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion ar ei isaf yn y grŵp oedran ieuengaf (51 i 54 oed) sef 55.6%, o'i gymharu â'r uchaf o 72.5% yn y bobl 70 i 74 oed (ffigur 12). Gwelir y patrwm hwn ar draws holl ardaloedd y Byrddau Iechyd yng Nghymru.




***Ffigur 12: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl grŵp oedran yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24***

## Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl y math o wahoddiad

Yn 2022/23, roedd y nifer uchaf a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion ymhlith y rhai a oedd wedi cymryd rhan mewn sgrinio o'r blaen, sef 90.3%. Roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion a wahoddwyd am y tro cyntaf yn 63.0%. Fodd bynnag, roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion islaw'r safon ymhlith y rhai a oedd wedi cael gwahoddiad o'r blaen ond heb ymateb, sef 16.9%.

Yn 2023/24, roedd nifer y rhai a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion unwaith eto ar ei uchaf ymhlith y rhai hynny a oedd wedi cymryd rhan mewn sgrinio o'r blaen, sef 90.6%. Roedd y nifer a wahoddwyd am y tro cyntaf a fanteisiodd ar sgrinio yn is na'r safon o 60%, sef 58.2%, yn dilyn optimeiddio a gostwng ystod oedran y rhai a wahoddwyd. Fodd bynnag, roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion isaf ymhlith pobl a oedd wedi cael gwahoddiad o'r blaen ond heb ymateb, sef 17.5% er bod hyn wedi cynyddu o 16.9% yn 2022/23 (tabl 11). Mae'r patrwm yn gyson ar draws y byrddau iechyd.

***Tabl 11: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl math o wahoddiad, 2022/23 i 2023/24***

| Math o Wahoddiad | Gwahoddwyd (n) | Sgriniwyd (n) | Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **2022/23** | | | |
| **Cyntaf** | 205701 | 129694 | 63.0 |
| **Adalw, heb ymateb o'r blaen** | 61070 | 10319 | 16.9 |
| **Adalw, wedi ymateb yn flaenorol** | 147261 | 132915 | 90.3 |
| **2023/24** | | | |
| **Cyntaf** | 195726 | 113850 | 58.2 |
| **Adalw, heb ymateb o'r blaen** | 81436 | 14254 | 17.5 |
| **Adalw, wedi ymateb yn flaenorol** | 213212 | 193196 | 90.6 |

## Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl Rhywedd

Mae Sgrinio'r Coluddion Cymru yn gwahodd pobl o unrhyw rywedd i gymryd rhan mewn prawf sgrinio'r coluddion bob dwy flynedd.

Yn 2022/23, ledled Cymru, roedd gwahaniaeth o 4.4% yn nifer y dynion a menywod a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion, gyda'r nifer a fanteisiodd ar y prawf sgrinio ymhlith dynion yn is, sef 63.7%, o'i gymharu â'r nifer a fanteisiodd ar y prawf sgrinio ymhlith menywod, sef 68.1%. Mae'r bwlch wedi ehangu 1.6% o'i gymharu â 2021/22 pan oedd y gwahaniaeth yn 2.8%. Mae nifer y menywod a fanteisiodd ar brawf sgrinio'r coluddion wedi aros yn gymharol sefydlog (68.1% yn 2022/23 o'i gymharu â 68.6% yn 2021/22); fodd bynnag, mae nifer y dynion a fanteisiodd ar brawf sgrinio'r coluddion wedi gostwng o 65.8% yn 2021/22 i 63.7% yn 2022/23.

Mae rhywfaint o amrywiad yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd gyda'r bwlch yn amrywio o 2.7% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i 6.1% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'r bwlch

anghydraddoldeb wedi ehangu ym mhob ardal y Byrddau Iechyd o'i gymharu â 2021/22 (tabl 12).

***Tabl 12: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl rhywedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23***

| Bwrdd iechyd | Dynion (%) | Menywod (%) | Bwlch Anghydraddoldeb (%) | Bwlch Anghydraddoldeb 21/22 (%) |
|---|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 64.0 | 68.4 | 4.5 | 2.0 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 63.5 | 68.2 | 4.8 | 3.0 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 62.7 | 68.1 | 5.4 | 3.3 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 64.0 | 66.6 | 2.7 | 1.8 |
| **BIP Hywel Dda** | 64.4 | 69.2 | 4.8 | 3.3 |
| **BI Addysgu Powys** | 64.6 | 70.7 | 6.1 | 5.1 |
| **BIP Bae Abertawe** | 63.4 | 66.5 | 3.2 | 2.0 |
| **Cymru Gyfan** | **63.7** | **68.1** | **4.4** | 2.8 |

Yn 2023/24, ledled Cymru, mae gwahaniaeth o 4.4% yn nifer y dynion a'r menywod a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion, gyda'r rhai a fanteisiodd ar sgrinio yn is ymhlith dynion, sef 63.3%, o'i gymharu â'r rhai a fanteisiodd ar sgrinio ymhlith menywod, sef 67.7%. Mae'r bwlch wedi aros yr un fath ers 2022/23. Mae rhywfaint o amrywiad yn ôl Bwrdd Iechyd gyda'r bwlch yn amrywio o 3.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i 5.6% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'r bwlch anghydraddoldeb wedi ehangu ym mhob ardal y Byrddau Iechyd o'i gymharu â 2022/23 ar wahân i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys lle mae wedi lleihau (tabl 13).

***Tabl 13: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio'r coluddion yn ôl rhywedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24***

| Bwrdd Iechyd | Dynion (%) | Menywod (%) | Bwlch Anghydraddoldeb (%) | Bwlch Anghydraddoldeb 22/23 (%) |
|---|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 63.1 | 67.3 | 4.2 | 4.5 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 63.7 | 68.1 | 4.4 | 4.8 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 62.6 | 68.1 | 5.6 | 5.4 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 62.8 | 66.2 | 3.4 | 2.7 |
| **BIP Hywel Dda** | 64.7 | 69.3 | 4.6 | 4.8 |
| **BI Addysgu Powys** | 64.4 | 70.0 | 5.6 | 6.1 |
| **BIP Bae Abertawe** | 62.2 | 66.1 | 3.8 | 3.2 |
| **Cymru Gyfan** | **63.3** | **67.7** | **4.4** | **4.4** |

## Sgrinio Serfigol Cymru

Nod Sgrinio Serfigol Cymru yw lleihau nifer yr achosion o ganser serfigol ymledol, ynghyd â morbidrwydd a marwolaethau ohono. Gwahoddir menywod a phobl â gwddf y groth bob 5 mlynedd o 25 oed i 64 oed. Dechreuodd y gwaith o optimeiddio'r cyfnod sgrinio i 5 mlynedd ar gyfer pob oedran ym mis Ionawr 2022. Cyn hyn, roedd menywod 25-49 oed yn cael eu gwahodd bob 3 blynedd a menywod 50-64 oed yn cael eu gwahodd bob 5 mlynedd.

Diffinnir cwmpas sgrinio serfigol ledled Cymru fel cyfran y cyfranogwyr cymwys a gafodd brawf digonol yn y cyfnod priodol ar gyfer eu hoedran. Ym mis Hydref 2023, roedd y cwmpas ledled Cymru yn 68.2% sydd ychydig yn is na'r ganran oedd ar gael i fanteisio ar wasanaethau sgrinio yn 21/22 sef 69.3%. Ym mis Hydref 2024, mae'r cwmpas ledled Cymru yn 68.7% ychydig yn uwch nag yn 22/23. Y safon gwasanaeth gofynnol ar gyfer cwmpas yw 70%.


## Cwmpas sgrinio serfigol yn ôl ardal ddaearyddol

Yn 2022/23, roedd amrywiad daearyddol mewn cwmpas ledled Cymru ar lefel ardal y Bwrdd Iechyd. Roedd y cwmpas isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sef 66.5% ac uchaf ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys sef 71.9% (tabl 14).

***Tabl 14: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2022/23***

| Bwrdd iechyd | Cymwys (n) | Profwyd(n) | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 156975 | 108848 | 69.3% |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 172147 | 119027 | 69.1% |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 137128 | 91236 | 66.5% |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 115243 | 78768 | 68.3% |
| **BIP Hywel Dda** | 94169 | 63689 | 67.6% |
| **BI Addysgu Powys** | 31633 | 22734 | 71.9% |
| **BIP Bae Abertawe** | 98524 | 65622 | 66.6% |
| **Cymru Gyfan** | **806279** | **550260** | **68.2** |

Mae mwy o amrywiad mewn cwmpas sgrinio serfigol ar lefel ardal yr Awdurdod Lleol. Mae cwmpas sgrinio serfigol isaf yng Nghaerdydd sef 64.2%, ac uchaf yn Sir Fynwy sef 74.3% (ffigur 13).




***Ffigur 13: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl yr Awdurdod Lleol mae pobl yn byw ynddo, 2022/23***


Yn 2023/24, roedd rhywfaint o amrywiad daearyddol mewn cwmpas ledled Cymru ar lefel y bwrdd iechyd. Roedd cwmpas isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe sef 66.6% ac uchaf ym

Mwrdd Iechyd Addysgu Powys sef 72.4% (tabl 15). Mae'r cwmpas wedi cynyddu ychydig ym mhob ardal y Byrddau Iechyd o'i gymharu â 2022/23.

***Tabl 15: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24***

| Bwrdd iechyd | Cymwys (n) | Profwyd (n) | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 158106 | 110498 | 69.9% |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 172439 | 119831 | 69.5% |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 138295 | 92544 | 66.9% |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 115783 | 80191 | 69.3% |
| **BIP Hywel Dda** | 94347 | 64097 | 67.9% |
| **BI Addysgu Powys** | 31647 | 22897 | 72.4% |
| **BIP Bae Abertawe** | 99356 | 66194 | 66.6% |
| **Cymru Gyfan** | **811776** | **557566** | **68.7%** |


Mae mwy o amrywiad yng nghwmpas sgrinio serfigol yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae'r cwmpas isaf yng Nghaerdydd gyda 64.6% a fanteisiodd ar sgrinio serfigol, ac uchaf yn Sir Fynwy gyda 75.1% (ffigur 14). Mae ardaloedd yr Awdurdod Lleol gyda'r cwmpas isaf ac uchaf yn 2023/24 yn aros yr un fath ag yn 2022/23.




***Ffigur 14: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl yr Awdurdod Lleol y mae pobl yn byw ynddi, 2023/24***

## Cwmpas sgrinio serfigol yn ôl amddifadedd

Ar draws Cymru, yn 2022/23, roedd cwmpas sgrinio serfigol ar ei uchaf yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig sef 75%, gyda'r cwmpas isaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sef 60.7%. Gwelir y cysylltiad rhwng cwmpas ac amddifadedd yn eang ar draws holl ardaloedd y byrddau iechyd yng Nghymru, er nad yw'r patrwm yn llinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (ffigur 15).





***Ffigur 15: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd, 2022/23***

Roedd y bwlch anghydraddoldeb, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth absoliwt rhwng cwmpas yn y cymunedau lleiaf difreintiedig o'i gymharu â'r cymunedau mwyaf difreintiedig, yn 14.3%. Mae hyn wedi cynyddu 1.1% ers 2021/22 pan oedd y bwlch anghydraddoldeb yn 13.2%. Roedd y bwlch anghydraddoldeb yn amrywio o'r uchafswm o 16.6% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r isaf o 8.3% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (tabl 16).

***Tabl 16: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) mewn cwmpas sgrinio serfigol yn ôl y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2022/23***

| Bwrdd Iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 61. | 77.0 | 15.2 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 59.8 | 74.9 | 15.1 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 58.3 | 75. | 16.6 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 62.9 | 76. | 13.4 |
| **BIP Hywel Dda** | 59.6 | 68. | 8.3 |
| **BI Addysgu Powys** | 61.0 | 75.7 | 14.7 |
| **BIP Bae Abertawe** | 60.7 | 73.6 | 12.9 |
| **Cymru Gyfan** | **60.7** | **75.0** | **14.3** |

Ar draws Cymru, yn 2023/24, roedd cwmpas sgrinio serfigol uchaf yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig sef 75.5%, gyda chwmpas isaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sef 60.9% (ffigur 16). Gwelir y cysylltiad rhwng cwmpas ac amddifadedd yn eang ar draws holl ardaloedd y byrddau iechyd yng Nghymru, er nad yw'r patrwm yn llinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Dyma'r un patrwm ag a welwyd yn y data ar gyfer 2022/23.




*Ffigur 16: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd, 2023/24*


Yn 2023/24, roedd y bwlch anghydraddoldeb, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth absoliwt rhwng cwmpas yn y cymunedau lleiaf difreintiedig o'i gymharu â'r cymunedau mwyaf difreintiedig, yn 14.6%, cynnydd o 0.3% o 2022/23. Mae hyn oherwydd cynnydd mwy mewn cwmpas yn y cymunedau lleiaf difreintiedig o'i gymharu â'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Roedd y bwlch anghydraddoldeb yn amrywio o'r uchafswm o 16.7% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r isafswm o 7.9% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (tabl 17).

*Tabl 17: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) yng nghwmpas sgrinio serfigol yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24*

| Bwrdd Iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 62.0 | 77.9 | 15.9 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 59.6 | 75.3 | 15.7 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 58.6 | 75.3 | 16.7 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 63.5 | 77.3 | 13.8 |
| **BIP Hywel Dda** | 60.2 | 68.1 | 7.9 |
| **BI Addysgu Powys** | 61.5 | 75.6 | 14.1 |
| **BIP Bae Abertawe** | 60.6 | 73.6 | 13.0 |
| **Cymru Gyfan** | **60.9** | **75.5** | **14.6** |

## Cwmpas sgrinio serfigol yn ôl oedran

Ar draws Cymru yn 2022/23, mae cwmpas sgrinio serfigol isaf yn y grŵp oedran ieuengaf (25 i 29 oed) sy'n gymwys i gael eu sgrinio. Mae cwmpas cyfranogion cymwys 25-29 yn 62.4% o'i gymharu â'r cwmpas uchaf o 76.1% mewn cyfranogwyr 50-54 oed (ffigur 17).





***Ffigur 17: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl grŵp oedran yng Nghymru, 2022/23***

Yn 2022/23 ledled Cymru, mae'r duedd ar gyfer y cwmpas isaf yn y grŵp oedran 25-29 oed a'r cwmpas uchaf yn y grŵp oedran 50-54 yn bresennol ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru (tabl 18).

***Tabl 18: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl grŵp oedran yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2022/23***

| Bwrdd iechyd | 25-29 oed | 30-34 oed | 35-39 oed | 40-44 oed | 45-49 oed | 50-54 oed | 55-59 oed | 60-64 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 65.9 | 68.6 | 69 | 68.5 | 67.4 | 76.5 | 70.7 | 67.4 | 69.3 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 63.9 | 68.7 | 68.9 | 68.7 | 67.8 | 76.4 | 70.7 | 66.5 | 69.1 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 56.5 | 63.5 | 66.5 | 68.9 | 68.7 | 76.5 | 69.9 | 66.5 | 66.5 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 66.4 | 67.9 | 68.8 | 66.8 | 66.5 | 75.5 | 68.7 | 65.3 | 68.3 |
| **BIP Hywel Dda** | 61.3 | 67.2 | 67.7 | 65.9 | 66.6 | 75.5 | 69.5 | 65.5 | 67.6 |
| **BI Addysgu Powys** | 66.6 | 70.3 | 72.6 | 71.1 | 70.7 | 79.5 | 72.2 | 69.9 | 71.9 |
| **BIP Bae Abertawe** | 60.2 | 65.5 | 65.9 | 66.7 | 65.4 | 74.4 | 68.8 | 66.2 | 66 |
| **Cymru Gyfan** | 62.4 | 67.1 | 68.1 | 67.9 | 67.4 | 76.1 | 70 | 66.5 | 68.2 |

Ar draws Cymru yn 2023/24, mae'r cwmpas sgrinio serfigol isaf yn y grŵp oedran ieuengaf (25 i 29 oed) sy'n gymwys i gael eu sgrinio. Mae cwmpas cyfranogion cymwys 25-29 oed yn 61.9% o'i gymharu â'r cwmpas uchaf o 76.1% mewn cyfranogwyr 50-54 oed (ffigur 17).




***Ffigur 18: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl grŵp oedran yng Nghymru, 2023/24***

Yn 2023/24 ledled Cymru, mae'r duedd ar gyfer y cwmpas isaf yn y grŵp oedran 25-29 a'r cwmpas uchaf yn y grŵp oedran 50-54 yn bresennol ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru (tabl 19).

***Tabl 19: Cwmpas (%) sgrinio serfigol yn ôl grŵp oedran yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24***

| Bwrdd iechyd | 25-29 oed | 30-34 oed | 35-39 oed | 40-44 oed | 45-49 oed | 50-54 oed | 55-59 oed | 60-64 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 65.3 | 69.7 | 70.6 | 69.8 | 69.1 | 76.3 | 70.0 | 68.1 | 69.9 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 63.4 | 69.5 | 69.7 | 70.0 | 68.9 | 75.9 | 70.2 | 67.0 | 69.5 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 56.1 | 64.3 | 67.3 | 69.8 | 69.9 | 76.3 | 69.8 | 66.2 | 66.9 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 66.4 | 69.7 | 70.5 | 68.8 | 68.2 | 75.4 | 68.5 | 66.1 | 69.3 |
| **BIP Hywel Dda** | 61.3 | 67.1 | 68.8 | 66.9 | 67.4 | 75.2 | 69.2 | 66.4 | 67.9 |
| **BI Addysgu Powys** | 66.7 | 72.8 | 72.9 | 72.6 | 72.5 | 79.4 | 71.3 | 69.8 | 72.4 |
| **BIP Bae Abertawe** | 58.5 | 65.4 | 67.0 | 67.7 | 66.1 | 74.0 | 67.8 | 66.9 | 66.6 |
| **Cymru Gyfan** | **61.9** | **67.9** | **69.2** | **69.2** | **68.6** | **75.8** | **69.5** | **67.0** | **68.7** |

# Rhaglen Cymru ar gyfer Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen

Nod Rhaglen Cymru ar gyfer Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen yw haneru marwolaethau sy'n gysylltiedig ag anewrysm aortig yn yr abdomen (AAA) erbyn 2025 yn y boblogaeth gymwys. Gwahoddir dynion dros 65 oed i fynychu sgrinio uwchsain untro.

Gwahoddwyd cyfanswm o 26,068 o bobl i gymryd rhan mewn sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen (AAA) yn 2022/23, gyda 20,221 o bobl yn manteisio ar y cynnig. Ar draws Cymru yn 2022/23 y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen oedd 77.6%. Mae hyn islaw'r safon isafswm o 80%.

Yn 2023/24, gwahoddwyd cyfanswm o 23,429 o bobl i gymryd rhan mewn sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen gyda 18,180 yn manteisio ar y cynnig. Adroddir ar y nifer a fanteisiodd ar y sgrinio fel cyfran y cyfranogwyr gwadd cymwys a gafodd eu sgrinio o fewn chwe mis i'r gwahoddiad, gan ei wneud y data diweddaraf sydd ar gael ym mis Hydref 2024. Ar draws Cymru yn 2023/24, arhosodd y gyfradd sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen 77.6% islaw'r safon ofynnol o 80%.


## Nifer y rhai a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl ardal ddaearyddol

Mae amrywiad daearyddol ar draws ardaloedd y Byrddau Iechyd yn amrywio o'r isaf o 73.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r uchaf o 82.1% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (tabl 20). Mae'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn is ar draws yr holl Fyrddau Iechyd o'i gymharu â 2021/22 gyda dim ond Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyrraedd y safon 80%.

***Tabl 20: Nifer (%) y rhai a fanteisiodd ar sgrinio Anewrysmau Aortig yn yr Abdomen (AAA) yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23***

| Bwrdd iechyd | Gwahoddwyd (n) | Profwyd (n) | Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 4633 | 3520 | 76.0% |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 5421 | 4312 | 79.5% |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 3331 | 2445 | 73.4% |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 3844 | 2936 | 76.4% |
| **BIP Hywel Dda** | 4103 | 3285 | 80.1% |
| **BI Addysgu Powys** | 1280 | 1051 | 82.1% |
| **BIP Bae Abertawe** | 3452 | 2668 | 77.3% |
| **Cymru Gyfan** | **26068** | **20221** | **77.6** |

Mae amrywiad daearyddol yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen hefyd yn bodoli ar lefel ardal Awdurdod Lleol yn amrywio o'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio ym Merthyr Tudful sef 70.0% a'r uchaf ym Mhowys sef 82.1% (ffigur 19).





***Ffigur 19: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23***

Yn 2023/24, roedd amrywiad daearyddol ar draws ardaloedd y Byrddau Iechyd yn amrywio o'r isaf o 75.3% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r uchaf o 84.1% ym Mwrdd Iechyd Powys. Mae'r nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn uwch ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23 ond yn is yn ardaloedd y Byrddau Iechyd eraill (tabl 21).

***Tabl 21: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24***

| Bwrdd iechyd | Gwahoddwyd (n) | Profwyd(n) | Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 4004 | 3062 | 76.5% |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 5520 | 4267 | 77.3% |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 3751 | 2823 | 75.3% |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 2898 | 2280 | 78.7% |
| **BIP Hywel Dda** | 3187 | 2521 | 79.1% |
| **BI Addysgu Powys** | 1242 | 1044 | 84.1% |
| **BIP Bae Abertawe** | 2806 | 2166 | 77.2% |
| **Cymru Gyfan** | **23429** | **18180** | **77.6%** |

Yn 2023/24, roedd amrywiad daearyddol yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen ar lefel awdurdod lleol, yn amrywio o'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio ym Mlaenau Gwent sef 72.2% a'r uchaf ym Mhowys sef 84.1% (Ffigur 20).




c

***Ffigur 20: Y nifer (%) a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl yr Awdurdod Lleol maent yn byw ynddo, 2023/24***

## Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl amddifadedd

Ar draws Cymru, yn 2022/23, roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen) uchaf yn y cwintel lleiaf difreintiedig sef 84.4%, ac isaf yn y cwintel mwyaf difreintiedig sef 67.2%. Mae pob ardal y byrddau iechyd yn dangos tuedd linellol o'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig a'r nifer uchaf a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau lleiaf difreintiedig (ffigur 21).




***Ffigur 21: Nifer (%) y rhai a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl cwintel amddifadedd ardal y Bwrdd Iechyd, 2022/23***

Yn 2022/23 ledled Cymru, roedd y bwlch anghydraddoldeb, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau lleiaf difreintiedig o'i gymharu â'r cymunedau mwyaf difreintiedig, yn 17.2%. Mae'r bwlch wedi cynyddu o 12.4% yn 2021/22 ac o 8.4% yn 2020/21. Mae'r bwlch anghydraddoldeb wedi cynyddu oherwydd gostyngiad yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Roedd y bwlch anghydraddoldeb yn 2022/23 fwyaf ym Mwrdd iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sef 24% ac isaf ym Mwrdd iechyd Addysgu Powys sef 11.2% (tabl 22).

***Tabl 22: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddo, 2022/23***

| Bwrdd iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 69.4 | 86 | 16.6 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 69 | 86.1 | 17.1 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 58.2 | 82.2 | 24 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 69.4 | 86.2 | 16.8 |
| **BIP Hywel Dda** | 65.4 | 85.5 | 20.1 |
| **BI Addysgu Powys** | 71.9 | 83.1 | 11.2 |
| **BIP Bae Abertawe** | 68.6 | 82.8 | 14.2 |
| **Cymru Gyfan** | **67.2** | **84.4** | **17.2** |

Ar draws Cymru, yn 2023/24, roedd y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen uchaf yn y cwintel lleiaf difreintiedig sef 85.1%, ac isaf yn y cwintel mwyaf difreintiedig sef 66.8%. Mae pob ardal Bwrdd Iechyd yn dangos tuedd linellol o'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig a'r nifer uchaf a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau lleiaf difreintiedig (ffigur 22).




***Ffigur 22: Y nifer a fanteisiodd ar Sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl cwintel amddifadedd ardal y Bwrdd Iechyd 2023/24***

Yn 2023/24 ledled Cymru, roedd y bwlch anghydraddoldeb, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau lleiaf difreintiedig o'i gymharu â'r cymunedau mwyaf difreintiedig, yn 18.3%. Cynyddodd y bwlch o 17.2% yn 2022/23. Mae'r bwlch anghydraddoldeb wedi cynyddu oherwydd gostyngiad yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig a chynnydd yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio yn y cymunedau lleiaf difreintiedig. Roedd y bwlch anghydraddoldeb yn 2023/24 fwyaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sef 25.1% ac isaf ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys sef 10.1% (tabl 23).

***Tabl 23: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio anewrysmau aortig yn yr abdomen yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2023/24***

| Bwrdd iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 67 | 86.9 | 19.9 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 67.8 | 83.8 | 16 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 59.5 | 84.6 | 25.1 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 72.8 | 86.6 | 13.8 |
| **BIP Hywel Dda** | 69.1 | 85.9 | 16.8 |
| **BI Addysgu Powys** | 75 | 85.1 | 10.1 |
| **BIP Bae Abertawe** | 67.2 | 85.5 | 18.3 |
| **Cymru Gyfan** | **66.8** | **85.1** | **18.3** |

## Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

Nod Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yw canfod retinopatheg diabetig yn gynnar ac atal colli golwg o glefyd llygaid diabetig. Mae sgrinio llygaid diabetig yn chwilio am arwyddion o retinopatheg

diabetig cyn i unrhyw symptomau gael eu dangos. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos y gellir atal colli golwg mewn 70 – 90% o bobl â retinopatheg diabetig sy'n bygwth eu golwg os caiff ei adnabod a'i drin yn gynnar. Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn rhaglen sgrinio wedi'i thargedu ar gyfer pawb 12 oed a hŷn sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru.

Diffinnir cwmpas sgrinio llygaid ledled Cymru fel cyfran y cyfranogwyr cymwys sy'n derbyn canlyniad wedi'i adrodd yn y cyfnod amser priodol. Yn 2022/23, roedd y cwmpas ledled Cymru yn 31.5%, islaw'r safon o 80%. Yn 2023/24, yn dilyn gweithredu'r llwybr adalw risg isel a chychwyn cynllun Trawsnewid Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, cynyddodd y cwmpas i 52.3% ond arhosodd islaw'r safon o 80%.

## Cwmpas sgrinio llygaid diabetig yn ôl ardaloedd daearyddol


Yn 2022/23, roedd amrywiad daearyddol yn y cwmpas ledled Cymru ar lefel y Bwrdd Iechyd gyda'r cwmpas yn amrywio o 25.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i 36.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (tabl 24).

***Tabl 24: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2022/23***

| Bwrdd iechyd | Gwahoddwyd (n) | Sgriniwyd (n) | Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 39097 | 9936 | 25.4% |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 40267 | 14538 | 36.1% |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 25188 | 8606 | 34.2% |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 29300 | 9287 | 31.7% |
| **BIP Hywel Dda** | 24964 | 8435 | 33.8 |
| **BI Addysgu Powys** | 7869 | 2121 | 27.0% |
| **BIP Bae Abertawe** | 23203 | 6851 | 29.5% |
| **Cymru Gyfan** | **191491** | **60285** | **31.5%** |

Mae'r cyfanswm yn cynnwys nifer fach o bobl nad oes ganddynt ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi wedi'i nodi.

Mae amrywiad daearyddol eang yn y cwmpas yn ôl ardal Awdurdod Lleol yn amrywio o 18% ym Mhen-y-bont ar Ogwr i 42.4% yn Sir Gaerfyrddin (ffigur 22). Mae'r cwmpas ar lefel awdurdod lleol yn cael ei ddylanwadu gan argaeledd lleoliad a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer sgrinio llygaid diabetig.




***Ffigur 23: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl yr Awdurdod Lleol mae pobl yn byw ynddo, 2022/23***


Yn 2023/24, mae amrywiad daearyddol mewn cwmpas ledled Cymru ar lefel y Bwrdd Iechyd gyda'r cwmpas yn amrywio o 46.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i 60.6% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (tabl 25).

***Tabl 25: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24***

| Bwrdd iechyd | Gwahoddwyd (n) | Sgriniwyd (n) | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 39968 | 18408 | 46.1% |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 40641 | 23676 | 58.3% |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 25995 | 12473 | 48.0% |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 29592 | 14909 | 50.4% |
| **BIP Hywel Dda** | 25283 | 14957 | 59.2% |
| **BI Addysgu Powys** | 7834 | 4745 | 60.6% |
| **BIP Bae Abertawe** | 23514 | 11767 | 50.0% |
| **Cymru Gyfan** | **194197** | **101606** | **52.3%** |

Mae'r cyfanswm yn cynnwys nifer fach o bobl nad oes ganddynt ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi wedi'i nodi.

Yn 2023/24, roedd amrywiad daearyddol eang mewn cwmpas yn ôl ardal awdurdod lleol yn amrywio o 40% yng Nghasnewydd i 69% yn Sir Gaerfyrddin (ffigur 23). Mae'r cwmpas ar lefel awdurdod lleol yn cael ei ddylanwadu gan argaeledd lleoliad a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer cynnal sgrinio llygaid diabetig.





*Ffigur 24: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl yr Awdurdod Lleol y mae pobl yn byw ynddo, 2023/24*

## Cwmpas sgrinio llygaid yn ôl amddifadedd

Ar draws Cymru yn 2022/23, mae'r cwmpas sgrinio llygaid uchaf yn y cymunedau lleiaf difreintiedig sef 34.8% ac isaf yn y cymunedau mwyaf difreintiedig sef 28%. Fodd bynnag, mae'r cysylltiad rhwng cwmpas ac amddifadedd, gyda'r cwmpas sgrinio llygaid uchaf yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ac isaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn llai amlwg yn ôl ardaloedd Byrddau Iechyd.

Yn 2022/23, mae tuedd linellol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ond nid oes gan Fyrddau Iechyd eraill duedd linellol glir. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mae'r duedd wedi'i gwrthdroi gyda'r cwmpas uwch yn y cymunedau mwyaf difreintiedig o'i gymharu â'r lleiaf difreintiedig (ffigur 24).



*Ffigur 25: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl ardal Bwrdd Iechyd, 2022/23*


Yn 2022/23 ledled Cymru, y gwahaniaeth absoliwt yng nghwmpas sgrinio llygaid rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yw 6.8%. Roedd y bwlch anghydraddoldeb yn amrywio o 7.8% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i -5% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (tabl 26).

*Tabl 26: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) cwmpas sgrinio llygaid yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddi, 2022/23*

| Bwrdd iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 22.9 | 30.7 | 7.8 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 33.5 | 40.5 | 7 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 30.4 | 36.9 | 6.5 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 33.1 | 28.1% | -5 |
| **BIP Hywel Dda** | 25.4 | 28.9 | 3.5 |
| **BI Addysgu Powys** | 21 | 26.3 | 5.3 |
| **BIP Bae Abertawe** | 25.5 | 33.2 | 7.7 |
| **Cymru Gyfan** | **28** | **34.8** | **6.8** |

Ar draws Cymru yn 2023/24, mae cwmpas sgrinio llygaid yn cynyddu gyda llai o amddifadedd, fodd bynnag, mae'r cwmpas uchaf yng nghwintel 4, y cwintel lleiaf difreintiedig nesaf yn hytrach na chwintel 5 sef y cwintel lleiaf difreintiedig (ffigur 25). Yn 2023/24, mae tuedd linellol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ond nid oes gan Fyrddau Iechyd eraill duedd linellol glir.

Dylid nodi bod canolfan sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru Iechyd ar y Stryd Fawr wedi'i hagor yn 2022 yn Aberpennar yn Rhondda Cynon Taf i gynyddu hygyrchedd sgrinio i bobl o gymunedau mwy difreintiedig o fewn BIPCTM




*Ffigur 26: Cwmpas sgrinio llygaid yn ôl cwintel amddifadedd yn ôl Bwrdd Iechyd, 2023/24*

Yn 2023/24 ledled Cymru, y gwahaniaeth absoliwt mewn cwmpas rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yw 8.9% sydd wedi cynyddu o 6.8% yn 2022/23. Roedd y bwlch anghydraddoldeb yn amrywio o 12.6% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i 0.7% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (tabl 27).

*Tabl 27: Bwlch anghydraddoldeb (% absoliwt) mewn cwmpas sgrinio llygaid yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd mae pobl yn byw ynddi, 2023/24*


| Bwrdd iechyd | Mwyaf difreintiedig (%) | Lleiaf difreintiedig (%) | Bwlch anghydraddoldeb (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 42.4% | 49.4% | 7.0% |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 50.6% | 63.2% | 12.6% |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 42.1% | 52.7% | 10.5 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 48.8% | 49.5% | 0.7% |
| **BIP Hywel Dda** | 47.1% | 59.1% | 12.0% |
| **BI Addysgu Powys** | 54.0% | 57.9% | 3.9% |
| **BIP Bae Abertawe** | 46.2% | 51.3% | 5.0% |
| **Cymru Gyfan** | **45.6%** | **54.5%** | **8.9%** |

## Cwmpas sgrinio llygaid yn ôl oedran

Cynigir sgrinio llygaid diabetig o 12 oed drwy gydol oes heb unrhyw derfyn oedran uchaf.


Ar draws Cymru yn 2022/23, mae cwmpas sgrinio llygaid yn amrywio yn ôl grŵp oedran. Mae'r cwmpas uchaf yn y grŵp oedran ieuengaf o 12-14 oed (44%) ond yna mae'n gostwng mewn oedolion iau cyn cynyddu gyda'r cwmpas uchaf mewn pobl 70-79 oed (34.0%) cyn gostwng yn y rhai

dros 80 oed (29.4%) (ffigur 26). Gwelir y patrwm hwn ar draws holl ardaloedd y Byrddau Iechyd yng Nghymru gyda'r nifer isaf a fanteisiodd ar sgrinio yn y grwpiau oedran 15 i 19 oed neu 20-59 a'r nifer uchaf yn y grŵp oedran ieuengaf, sef 12-14 oed.




***Ffigur 27: Cwmpas (%) yn ôl grwpiau oedran ar gyfer sgrinio llygaid yng Nghymru, 2022/23***

Ar draws Cymru yn 2023/24, mae cwmpas sgrinio llygaid yn amrywio yn ôl grŵp oedran. Mae'r cwmpas uchaf ymhlith y rhai 15 i 19 oed (63%) gyda'r cwmpas isaf ymhlith y rhai 12 i 14 oed (50%) (ffigur 27). Ar draws holl ardaloedd y Byrddau Iechyd yng Nghymru, mae'r cwmpas yn ôl grŵp oedran yn dangos patrwm tebyg o'r cwmpas uchaf yn y grwpiau oedran ieuengaf cyn gostwng ymhlith oedolion o oedran gweithio.




***Ffigur 28: Cwmpas (%) yn ôl grwpiau oedran ar gyfer sgrinio llygaid yng Nghymru, 2023/24***

## Cwmpas sgrinio llygaid yn ôl rhywedd

Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn gwahodd pobl o unrhyw rywedd i gymryd rhan mewn sgrinio llygaid.

Ar draws Cymru yn 2022/23, nid oedd unrhyw amrywiad sylweddol mewn cwmpas rhwng dynion a menywod gyda'r cwmpas mewn dynion o 31.8% a menywod o 31.1%. Mae'r amrywiad lleiaf posibl yn ôl Bwrdd Iechyd gyda'r bwlch mwyaf i'w weld yng Nghwm Taf Morgannwg lle mae gwahaniaeth o 1.3% rhwng y cwmpas mewn dynion o'i gymharu â menywod.

***Tabl 28: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl rhywedd, 2022/23***

| Bwrdd iechyd | Dynion (%) | Menywod (%) | Bwlch Anghydraddoldeb (gwryw-benyw) (%) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 25.7 | 25.1 | 0.6 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 36.2 | 36.0 | 0.2 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 34.5 | 33.7 | 0.9 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 32.3 | 31.0 | 1.3 |
| **BIP Hywel Dda** | 34.1 | 33.4 | 0.6 |
| **BI Addysgu Powys** | 26.8 | 27.3 | -0.4 |
| **BIP Bae Abertawe** | 29.9 | 29.0 | 1.0 |
| **Cymru Gyfan** | 31.8 | 31.1 | 0.7 |

Ar draws Cymru yn 2023/24, roedd amrywiad bach mewn cwmpas rhwng dynion a menywod gyda'r cwmpas mewn dynion o 53.3% a menywod o 51.1%. Mae'r amrywiad lleiaf posibl yn ôl bwrdd iechyd gyda'r bwlch mwyaf i'w weld ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe lle mae gwahaniaeth o 3.0% rhwng y cwmpas mewn dynion o'i gymharu â menywod (tabl 29).

***Tabl 29: Cwmpas (%) sgrinio llygaid yn ôl rhywedd, 2023/24***

| Bwrdd iechyd | Dynion | Menywod | Bwlch Anghydraddoldeb (gwryw-benyw) |
|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | 47.3 | 44.5 | 2.8 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | 58.8 | 57.6 | 1.2 |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | 48.7 | 47.1 | 1.7 |
| **BIP Cwm Taf Morgannwg** | 51.3 | 49.2 | 2.2 |
| **BIP Hywel Dda** | 60.1 | 58.0 | 2.1 |
| **BI Addysgu Powys** | 60.8 | 60.2 | 0.6 |
| **BIP Bae Abertawe** | 51.4 | 48.4 | 3.0 |
| **Cymru Gyfan** | 53.3 | 51.1 | 2.1 |

# Casgliadau

Mae cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer mynediad a chyfle cyfartal i bawb sy'n gymwys i gael eu sgrinio yn nod ac yn uchelgais hirdymor. Bydd hyn yn gofyn am gamau cydlynol ac ymrwymedig ar draws y system sgrinio dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae cyflwyno Strategaeth Tegwch Sgrinio wedi darparu'r cyfeiriad strategol sydd ei angen i amlygu hyn fel blaenoriaeth allweddol i'r Adran Sgrinio. Fodd bynnag, mae trosi hyn yn newidiadau gwirioneddol mewn anghydraddoldebau sgrinio yn parhau i fod yn heriol fel y dangosir gan y bwlch anghydraddoldeb parhaus o ran y nifer a fanteisiodd ar  sgrinio/cwmpas sgrinio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig o'i gymharu â'r cymunedau lleiaf difreintiedig a welir ar draws yr holl raglenni sgrinio i bobl ifanc ac oedolion.

***Tabl 30: Gwahaniaeth yn y nifer a fanteisiodd ar sgrinio rhwng y cwintel mwyaf a'r lleiaf difreintiedig***

| Rhaglen | 2023/24 | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Coluddion** | 16.9% | 16.2% | 15.9% | 14.5% | 16.5% |
| **Y Fron** | 17.3% | 19.6% | 15.3% | 18.9% | 15.9% |
| **Serfigol** | 14.6% | 14.3% | 13.2% | 12.1% | 11.5% |
| **Anewrysmau aortig yn yr abdomen (AAA)** | 18.3% | 17.2% | 12.4% | 8.4% | 12.8% |
| **Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru** | 8.9% | 6.8% | | | |

Fodd bynnag, mae'r ffigurau a gyflwynir yma yn fesur bras ac nid ydynt yn adlewyrchu ehangder y gwaith a drafodwyd yn rhan gyntaf yr adroddiad a'r ymgysylltu a'r gwaith cydweithredol parhaus i ddeall a mynd i'r afael â rhwystrau a galluogwyr mynediad yn well.

Roedd y data yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y nifer a fanteisiodd ar sgrinio, sef dechrau'r llwybr sgrinio yn unig. Nod cyffredinol sgrinio yw gwella canlyniadau iechyd i bobl Cymru drwy leihau morbidrwydd a marwolaethau. Wrth i ni weithio i wella anghydraddoldebau iechyd ar draws y llwybr sgrinio, byddwn hefyd yn datblygu sut y gallwn ymgorffori data ar wahanol gamau o'r llwybr clinigol, gan gynnwys mynediad at brofion diagnostig a thriniaeth ac argaeledd y profion hynny, er mwyn llywio'r ymateb sydd ei angen i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Bydd y data o'r Adroddiad Anghydraddoldeb Sgrinio yn llywio ffocws ymyriadau wedi'u targedu sy'n ofynnol o fewn y Strategaeth Tegwch Sgrinio newydd a'i Chynllun Gweithredu Tegwch Sgrinio ategol.

## Diffiniadau

Mae'r adran hon yn rhoi manylion pellach am y cyfrifiadau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.

**Cymwys**
Yn byw yng Nghymru ac wedi cofrestru gyda meddyg teulu ac wedi'i ddiffinio fel o fewn y garfan boblogaeth briodol a wahoddwyd yn ystod y cyfnod.

**Y nifer a fanteisiodd ar sgrinio**
Cyfrifwyd cyfranogwyr fel rhai a oedd wedi ymateb i'w gwahoddiad os cawsant eu gwahodd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth a'u bod wedi mynychu o fewn chwe mis i'r gwahoddiad.

**Cwmpas**
Cyfran o'r boblogaeth gymwys a wahoddwyd ac a gafodd eu sgrinio o fewn y cyfnod priodol.

**Amddifadedd**
Neilltuwyd cwintelau amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) 2014 a fesurwyd ar lefel ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA). Mae ardaloedd cynnyrch

ehangach haen is (LSOAs) wedi'u rhestru'n gwintelau ar lefel Cymru gyfan fel y gellir eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintel pan edrychir ar bob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

**Bwrdd Iechyd**
Dyma ardal y bwrdd iechyd lle maent yn byw ynddi.

## Cymorth cyllido

Ni ddarparwyd unrhyw gymorth ariannol nac anariannol i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

## Buddiannau sy'n gwrthdaro

Nid oes unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro i'w datgan

# Dolenni i waith perthnasol Iechyd Cyhoeddus Cymru

- *Strategaeth tegwch sgrinio 2022-2025 - Iechyd Cyhoeddus Cymru*
- *Adroddiad annhegwch yr is-adran sgrinio 2020-21 - Iechyd Cyhoeddus Cymru*

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
2025
Telerau Defnydd
ISBN (If applicable)